Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Ebrill 2021

Annwyl Glerc y Pwyllgor,

Ysgrifennaf atoch i ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor am ei lythyr dyddiedig 30 Mawrth. Rwyf wedi amlinellu gwybodaeth isod am y trefniadau rhyngwladol y gofynnwyd am ragor o eglurhad yn eu cylch.

Cymalau Adolygu

Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad agos â'r Adran Masnach Ryngwladol (DIT) ynghylch rhaglen y Cytundeb Masnach Rydd.

Fel y nodwch, mae gan nifer o'r cytundebau parhad (y Rhaglen Negodiadau a Chydgysylltu Parhad) a drosglwyddwyd o'r UE gymalau ynddynt i ailagor trafodaethau. Mae'r gwledydd hyn yn cynnwys Canada, Mecsico, De Korea, y Swistir a Thwrci.

Mae ein paratoadau ar gyfer y trafodaethau hyn ar y gweill ac rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid drwy'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach, cyfarfodydd rhithwir gyda busnesau unigol a chydag arweinwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn llywio ein hasesiad o brif ddiddordebau a blaenoriaethau Cymru ar gyfer pob trafodaeth.

Bydd lefel yr ymgysylltu a ddisgwyliwn gan DIT yn dibynnu ar y graddau y mae'r cytundebau'n debygol o newid. Er enghraifft, lle mae trafodaethau'n debygol o ailagor mewn meysydd arwyddocaol, megis gyda Chanada a Mecsico, byddem yn disgwyl i ymgysylltu ddilyn y cynsail a osodwyd gan drafodaethau EFTA Japan ac EEA. Roedd yr ymgysylltu hwn yn golygu bod Llywodraeth y DU yn rhannu testun drafft penodau yn ymwneud â materion datganoledig gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol y trafodaethau a chyn cwblhau'r broses derfynol ac yna'r holl destun y cytunwyd arno'n gyfreithiol ar ôl ei adolygu o safbwynt cyfreithiol. Cafodd cyfreithwyr a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru gyfle hefyd i ystyried agweddau ar y penodau hyn drwy gydol y trafodaethau hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lle mae newidiadau i gytundebau yn fach eu natur, byddem yn disgwyl lefel is o ymgysylltu gan DIT, er enghraifft, drwy ddiweddariadau llafar ac ysgrifenedig rheolaidd, fel y cawsom mewn perthynas â'r negodiadau parhad yn 2020.

Gwahoddodd DIT y Llywodraethau Datganoledig i ddarparu gwybodaeth am eu prif feysydd diddordeb/pryder mewn perthynas â thrafodaethau Canada a Mecsico yn y Fforwm Gweinidogol dros Fasnach (MFT) ar 18 Mawrth 2021. Disgwyliwn i'r cyfarfodydd diweddaru rheolaidd rhwng swyddogion y Llywodraeth Ddatganoledig a Phrif Negodwyr Canada a Mecsico a sefydlwyd yn ystod trafodaethau'r llynedd barhau.

Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Twrci

Nod Cytundeb Masnach Rydd y DU/Twrci, a lofnodwyd ar 29 Rhagfyr ac a gymhwyswyd dros dro o 1 Ionawr, oedd cadw trefniadau masnachu'r UE-Twrci a threfniadau'r Rheolau Tarddiad cyn belled ag y bo modd. Mae DIT o hyd wedi dweud y bydd angen diweddaru rhannau o'r cytundeb i gyd-fynd â Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU, sef y penodau ar y Rhwystrau Technegol i Fasnachu (TBT) a'r Rheolau Tarddiad.

Mae'r cymal adolygu yn nodi bod yn rhaid cynnal adolygiad o'r Cytundeb heb fod yn hwyrach na dwy flynedd ar ôl y dyddiad dod i rym, h.y. erbyn 2022. Mae'r hyn yn gyfle i'r DU fynd y tu hwnt i'r cytundeb parhad o ran lleihau rhwystrau i fasnachu. Dywedodd DIT y bydd yn ymgysylltu â ni ar y mandad negodi maes o law unwaith y bydd trafodaethau blaenoriaeth eraill wedi dod i ben.

Mae DIT wedi ein gwneud yn ymwybodol o rai materion gweithredu cychwynnol sydd wedi codi ar ffin yn Nhwrci gan nad yw'r cytundeb wedi'i gadarnhau, sydd wedi effeithio ar rai busnesau Prydeinig. Erbyn hyn, mae'r prosesau cadarnhau wedi'u cwblhau ar ochr Twrci a byddant yn cael eu cwblhau ar ochr y DU maes o law. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol sydd wedi effeithio ar fusnesau Cymru ar ffiniau Twrci neu Brydain hyd nes y cwblheir y prosesau cadarnhau. Fodd bynnag, o ystyried bod Twrci yn cyfrif am 2.7% o nwyddau Cymru, a chan gydnabod pwysigrwydd Twrci i'n diwydiant modurol, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Fforwm Modurol Cymru, i sicrhau bod ein sylwadau i DIT yn cael eu llywio gan farn a phryderon busnesau Cymru. Rydym hefyd yn ymwybodol o dystiolaeth anecdotaidd o anawsterau o ran bodloni gofynion y Rheolau Tarddiad ar gyfer allforion modurol i'r UE lle mae cydrannau o Dwrci wedi'u defnyddio yng nghynnyrch y DU. Mae hyn, wrth gwrs, yn tynnu sylw at y rhwystrau cynyddol i fasnachu a grëwyd gan y dull cyfyngol sy'n seiliedig ar y Rheolau Tarddiad a fabwysiadwyd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu â'r DU, gan fod cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau hyn yn agored i dariffau. Gallai hyn olygu bod allforion busnesau o'r fath i'r UE yn anghystadleuol.

Cytundebau rhwng y DU a gwledydd eraill sy'n ymwneud â Gwasanaethau Awyr

Fy nealltwriaeth i yw mai bwriad y cytundebau hyn yw sicrhau mynediad parhaus ar gyfer teithiau hedfan rhwng y DU a Norwy a Gwlad yr Iâ, er bod hyn yn llai cynhwysfawr nag a arferai fod yn wir drwy Ardal Hedfan Gyffredin Ewrop. Fel gyda chytundebau masnach ehangach, byddem yn disgwyl i Lywodraeth y DU barhau i adolygu a yw ein hystod o berthnasoedd hedfan rhyngwladol yn diwallu anghenion y DU gyfan orau, neu a ddylid mynd ar drywydd cytundebau ychwanegol neu a oes angen diweddaru cytundebau sy'n bodoli eisoes.

Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi gwybod i swyddogion Llywodraeth Cymru am gasgliad y cytundebau hyn ond ychydig iawn o drafodaethau eraill a gafwyd amdanynt. Er

bod hedfan yn fater a gedwir yn ôl, ein barn ni yw y dylid rhoi proses fwy ffurfiol ar waith i sicrhau yr ymgynghorir yn llawn â Gweinidogion Cymru ar y mathau hyn o gytundebau rhyngwladol a'u bod yn cael cyfle i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried a'u cyfrif yn ddigonol yn null llunio polisïau a strategaeth negodi Llywodraeth y DU.

Mae hyn yn cysylltu â'm pwynt olaf. Er bod y berthynas â DIT yn gymharol dda yn gyffredinol, a bod gwybodaeth fanwl yn cael ei rhannu'n sylweddol – gan gynnwys testun cytuniad drafft ar faterion sydd yn amlwg o fewn cymhwysedd datganoledig, rwy'n parhau i bwyso ar Weinidogion DIT i ddarparu mynediad cyfatebol o ran elfennau o drafodaethau masnach sydd eu hunain wedi'u cadw yn ôl ond sydd, serch hynny, â goblygiadau pwysig iawn i fusnesau Cymru a swyddi yng Nghymru – er enghraifft , cynigion ar dariffau a Chwotâu Cyfraddau Tariff (TRQs).

Anogaf y Pwyllgor yn y chweched Senedd i barhau i bwyso yn y cyd-destun yma.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition